Roedd sesiynau wythnosol rheolaidd ar yr amserlen eleni yn cynnwys: Grŵp Babanod, Grwpiau Plant Bach / LAP, Clwb Hwyl i'r Teulu, slot Cyrsiau/gweithdai a chynllun wythnosol Fareshare (ailddosbarthu bwyd). Roedd gwaith digidol parhaus yn cynnwys ein grwpiau WhatsApp Rhannu Adnoddau ac Arbed Arian. Bu'n bosibl i ni roi amser ar ein hamserlen i Dechrau'n Deg gynnal grŵp cynenedigol ac rydym yn falch y bydd hyn yn parhau. Bu'n bosibl i ni hefyd gynnal cwrs Pos Rhianta gyda Gweithredu dros



Blant. Ychwanegwyd tripiâu misol a digwyddiadau arbennig fel disgos a phartïon ynghyd â Diwrnodau Teuluol a theithiau yn ystod gwyliau'r ysgol.

“Rydyn ni mor ddiolchgar am bopeth mae'r staff wedi'i wneud i'r holl blant, rydyn ni i gyd yn mwynhau dod yma.”

Canolfan Deuluol Felin-foel

“—

"Mae mynychu nid yn unig yn helpu fy mab, mae'n fy helpu i hefyd. Alla i ddim diolch digon iddyn nhw am bopeth maen nhw'n ei wneud."

—”


Trosolwg o'r flwyddyn

Ar ddechrau 2023/2024 cawsom groesawi gweithiwr chwarae newydd a ddaeth yn rhan o'n tîm yn gyflym. Cafwyd ffocws mawr ar gostau byw eleni, gyda phrosiectau a helpodd i wneud bwyd a gweithgareddau yn fwy fforddiadwy i'n teuluoedd. Roeddem yn falch iawn o ailgroesawu gwirfoddolwr sy'n coginio pryd o fwyd cartref i'n teuluoedd ar ôl ysgol bob dydd Mercher.

Prosiect arall a ddarparwyd gennym eleni oedd helpu i baratoi plant cyn-ysgol sy'n mynychu ein grwpiau ar gyfer yr ysgol. O'r herwydd, fe wnaethom ddatblygu ffocws mwy ar greu amgylchedd iaith cyfoethog yn ein sesiynau chwarae. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio ymgyrch "Siarada gyda Fi" Llywodraeth Cymru yn ogystal â chyflwyno mwy o Gymraeg ac, yn olaf, anfon gweithgareddau adre, fel helfeydd trysor neu ryseitiau i ymestyn iaith y sesiwn. Diolch byth, roedd y cyllid yn ddiogel eleni. Fodd bynnag, mae angen cynllunio'n barhaus i sicrhau arian, gyda chyllid ar gyfer 24/25 a thu hwnt yn cael blaenoriaeth erbyn diwedd y flwyddyn.



Canlyniadau





Canolfan Deuluol Garnant 'Tots Tŷ Ni'

Elusen gofrestredig sy'n darparu sesiynau a chymorth am ddim i bob teulu â phlant 0-11 oed

Uchafbwyntiau

- Rhoddodd ymweliad gan Heart Drummers gyfle i deuluoedd ddysgu rhythmau newydd a gwneud ychydig o ddrymio dull rhydd gyda'i gilydd.
- Ar ddiwrnod hwyl y Pasg treuliodd teuluoedd amser gyda merlod a chwningod, cymryd rhan mewn Helfa Wyau Pasg a thostio teisennau croes dros y tân.
- Hwyluswyd Cristingl hyfryd gan y Parchedig Susan Barnett. Gwnaeth teuluoedd fwynhau gwneud eu horennau Cristingl eu hunain gyda hi, wrth iddi hi esbonio'r ystyr.

Sesiynau a Ddarparwyd

Hwylusodd Sarah Walton o Stop It Now, 2 sesiwn - Diogelwch Digidol i blant ac ymwybyddiaeth o gam-drin rhywiol. Llwyddodd i roi gwybodaeth i rieni gan hefyd wneud iddyn nhw deimlo bod ganddynt y sgiliau i ddelio â'r sefyllfaoedd anodd hyn os byddant yn codi.

Rydym wedi darparu 35 sesiwn Bwmps a Babis lle mae teuluoedd yn cael mynediad at wybodaeth am ddatblygiad plant. Cynhaliwyd 34 sesiwn Grŵp Babanod a Brodyr a Chwiorydd, sesiynau allgymorth sy'n canolbwyntio ar weithgareddau



corfforol. Mae 36 sesiwn Gardd Gudd wedi caniatáu i deuluoedd gymryd rhan mewn garddio, coginio a chwarae awyr agored.

“ Mae'r sesiynau'n gyfle gwych i fwynhau caneuon a straeon gyda'r babi. Maen nhw'n brofiad bondio hyfryd. ”

Canolfan Deuluol Garnant 'Tots Tŷ Ni'

“

*Teimlo'n fwy hyderus yn magu plant,
gan wybod nad ydw i ar fy mhen fy
hun gyda phroblemau x, y neu z.*

”

Trosolwg o'r flwyddyn

Mae cyllid gan y Loteri ar gyfer Canolfannau Teuluol Betws a Garnant wedi cynyddu'r swm rydyn ni'n ei gael ac rydyn ni wedi gweithio gyda'n gilydd a rhannu adnoddau, fel yn ystod gwyliau'r haf, pan hwyluswyd teithiau a gweithgareddau eraill gyda'n gilydd. Gwnaethom hefyd gymryd rhan gyda sefydliadau eraill yn Hwyl y Cwm, yn y parc lleol, gan ddarparu gweithgareddau drwy gydol yr haf.


Oherwydd arian y Loteri, bu'n bosib i ni gyflogi Gweithiwr Gweithgareddau Awyr Agored sy'n cynnal gweithgareddau yn y ddwy Ganolfan. Yn Ngarnant maent wedi gallu ychwanegu profiadau chwarae ychwanegol yn yr awyr agored i'n Grŵp Gardd Gudd a'n grŵp Gwyddoniaeth Cegin, a sesiwn ar ôl ysgol.

Trwy'r grŵp Gwyddoniaeth Cegin, mae teuluoedd wedi mwynhau archwilio amrywiaeth o arbrofion gyda'i gilydd, gan ddefnyddio cynhwysion y gallwch ddod o hyd iddynt yn y gegin.

Mewn ymateb i deuluoedd yn dweud wrthym nad oeddent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer talebau Cychwyn Bwyd Iach y GIG ond eu bod yn dal i gael trafferth gyda chostau byw, fe wnaethon ni greu a dosbarthu 66 o Becynnau Bwyd Iach i gefnogi teuluoedd. Mae aelodau'r gymuned wedi mwynhau ein Grŵp Garddio ar fore dydd Mawrth.



Canlyniadau





Canolfan Blant Jig-so

Mae Jig-So yn darparu amgylchedd diogel, cyfeillgar, anfeirniadol i deuluoedd a phlant o bob gallu, yn y Ganolfan ac mewn lleoliadau eraill.

Uchafbwyntiau

- Dathlu Pen-blwydd Jig-So'n 31 - gyda pharti ym mis Tachwedd ac yn bwysicach fyth, drwy barhau i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd drwy gydol y flwyddyn.
- Gweithio gyda rhieni i fagu eu hyder i roi cynnig ar wahanol weithgareddau mewn sesiynau synhwyrdd, cyn rhoi cynnig arnynt gartref. Yn enwedig gyda chwarae blêr.
- Defnyddio cyllid o ffynonellau eraill i gyflawni dau brosiect bwyd, mewn partneriaeth â'r Banc Bwyd a CIC.

Sesiynau a Ddarparwyd

Sesiynau "Sgwrs a Chwarae" wythnosol yn ystod y tymor yn Neuadd Cwrwgl Llechryd, gyda Dechrau'n Deg.

Sesiynau synhwyrdd wythnosol rheolaidd yng Nghanolfan Jig-So yn Aberteifi.

Sesiynau/digwyddiadau untro, gan gynnwys:

sesiwn chwarae ar thema'r Pasg, nifer o deithiau cerdded synhwyrdd i'r teulu o Aberteifi i Ganolfan Bywyd Gwylt Cilgerran, ymweliad â'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol, a sesiynau chwarae yn y



parc.

Cynhaliwyd cwrs Cysylltiadau Teuluol 11-wythnos ar gyfer 8 teulu, a darparwyd creche.

Mae sesiynau Jig-So yn ardderchog am ddarparu ar gyfer alergeddau fy mab. Cymaint o deganau, crefftiau, lliwio ac ati, gwyh. Diolch.

Canolfan Blant Jig-so

“

Gall bod yn fam fod yn unig. Mae Jig-So yn fy nghael i mas o'r tŷ i ryngweithio â mamau eraill. Mae wedi helpu lot.

”

Trosolwg o'r flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn gwelsom gynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n mynychu ein sesiynau, a chynnydd yn y rhai sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd.


Ym mis Ebrill 2023 symudon ni i adeilad newydd, gyda gorbenion is. Roedd yn gyfnod prysur, ond gyda chymorth gwirfoddolwyr a ffrindiau, hen a newydd, fe wnaethom barhau i gynnal sesiynau a chefnogi teuluoedd.

Roeddem wedi adeiladu ystafell synhwyrdd bwrpasol yn yr hen safle, ac roeddem yn siomedig i'w gadael ar ôl. Ond fe wnaethon ni osod pabell synhwyrdd yn ein cartref newydd, a gweithio gyda theuluoedd i ddarparu cefnogaeth amgen. Mae gennym gynlluniau i adeiladu ystafell synhwyrdd bwrpasol yn ein hadeilad newydd.



Rhoddodd ein parti pen-blwydd yn 31 gyfle i ni fyfyrir ar yr hyn mae Jig-So wedi'i gyflawni dros y 30 mlynedd diwethaf, a beth mae'n ei olygu i gymaint o bobl. Rydym wedi cael ein cyffwrdd gan y straeon personol mae cymaint o bobl wedi'u rhannu â ni - a faint o gefnogaeth rydyn ni wedi'i chael dros gyfnod heriol.

Canlyniadau





Canolfan Deuluol Llambed

Rydym yn darparu lleoliad cynnes a chyfeillgar i deuluoedd a phlant ifanc lle gallant fwynhau gweithgareddau ac adeiladu perthnasoedd.

Uchafbwyntiau

- Dechreuon ni gynnal sesiynau Bright Stars ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae rhieni wedi gwerthfawrogi bod o gwmpas teuluoedd ag anghenion rhianta tebyg i'w plant.
- Mae Clwb Cinio wythnosol bob amser yn denu digon o bobl ac yn cael ei fwynhau gan bawb. Darperir pryd llysieuol am ddim ac mae rhieni'n awyddus i gynnig syniadau ar gyfer y fwydlen.
- Gwnaeth ein teuluoedd fwynhau paratoi baneri i gymryd rhan yn yr Orymdaith Dydd Gŵyl Dewi drwy Lambed, a oedd yn brofiad gwych i bawb a gymerodd ran.

Sesiynau a Ddarparwyd

Gwneud Marciau - helpu plant gyda'u datblygiad corfforol a gwybyddol cynysgol.

Aros a Chwarae - sesiwn chwarae am ddim.

Bright Stars - addas ar gyfer teuluoedd sydd â phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gyda neu heb ddiagnosis swyddogol.

Nofio - cyfarfod yn y pwll nofio lleol i gynorthwyo teuluoedd sydd â mwy nag un plentyn neu rieni sydd ddim yn teimlo'n hyderus yn y dŵr.



Mas Tu Fas - teithiau cerdded o amgylch y gymuned leol

Bwmps a Babis - cefnogi teuluoedd drwy feichiogrwydd, genedigaeth a thu hwnt

Clwb Cinio - Clwb cinio wythnosol am ddim i deuluoedd ei fwynhau.

“Roedd picnic yn y parc yn gymaint o hwyl, diolch am yr holl waith paratoi, rydyn ni'n ei werthfawrogi'n fawr.”

Canolfan Deuluol Llambed

“

'Rydyn ni'n caru'r ganolfan; rydyn ni bob amser yn cael croeso cynnes a llawer o gefnogaeth. Mae fy mab yn gofyn i ddod.'

”

Trosolwg o'r flwyddyn

Mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith fawr ar sefyllfaoedd ariannol ein teuluoedd unwaith eto, sy'n bryder mawr i lawer. Mae teuluoedd wedi mwynhau mynychu ein clwb cinio wythnosol lle maen nhw'n mwynhau pryd o fwyd poeth am ddim a hefyd y cyfle i eistedd o gwmpas bwrdd i sgwrsio ag eraill. Mae plant a'u rhieni wedi bod yn awyddus i roi cynnig ar fwydydd newydd ac edrych ar syniadau ar gyfer y bwydlenni.

Mae wedi bod yn bleser pur gweld ein teuluoedd yn magu hyder wrth fynychu'r sesiynau nofio - cafodd pawb lawer o hwyl.

Mae'r sesiynau Mas Tu Fas wedi bod yn boblogaidd ac wedi'u mynychu'n dda.


Mae'r sesiynau hyn wedi rhoi cyfle gwych i ni ymgysylltu â'r gymuned leol ac mae teuluoedd wedi mwynhau archwilio'r ardal leol.

Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn

arbennig o ddefnyddiol gan ein bod wedi gweld rhai teuluoedd newydd yn symud i mewn i Llambed.



Canlyniadau



Canolfan Deuluol Llandysul

Rydym yn cynnig lle cynnes a chroesawgar lle gall teuluoedd adeiladu rhwydweithiau cymorth, magu hyder, a dysgu sgiliau newydd.

Uchafbwyntiau

- Eleni rydym wedi cydweithio â Dechrau'n Deg a'r gwasanaeth Bydwragedd i ddatblygu cyfres o sesiynau paratoi i fod yn rhiant ar gyfer rhieni beichiog.
- Rydym wedi parhau â'n prosiect gan ddatblygu chwarae ac archwilio awyr agored. Gan weithio gyda'r prosiect Lluosi mae teuluoedd yn datblygu gardd y ganolfan deuluol.
- Ymwelodd Julie Morgan AS â ni. Aeth i sesiwn yn y ganolfan, gan siarad â rhieni a dysgu am y gwaith rydym yn ei wneud i gefnogi teuluoedd yn yr ardal.

Sesiynau a Ddarparwyd

Gwnaethom barhau â sesiwn wythnosol i rieni a babanod dan 1 ochr yn ochr â Dechrau'n Deg, mae hyn yn cynnwys sesiynau ar fwydo, diddyfnu a chymorth cyntaf a sesiynau iaith a chyfathrebu Babbling Babies.

Mewn cydweithrediad â Cymraeg i Blant a Chlwb Cwtsh rydym wedi gallu darparu sesiynau sy'n canolbwyntio ar ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Gwnaethom gynnig sesiwn Zumbini wythnosol ar gyfer chwarae corfforol a sesiynau chwarae ac archwilio awyr



agored wythnosol.

Gan weithio ar y cyd â Dechrau'n Deg mae rhieni wedi cwblhau cyrsiau rhianta ar y Blynnyddoedd Anhygoel, Cysylltiadau Teuluol a Grobrain.

“Rydwi wedi dysgu llwyth, mae'r 8 wythnos yma wedi fy rhoi yn ôl ar y trywydd iawn a dwi hefyd wedi cael cyfle i chwerthin ar hyd y ffordd.”

Canolfan Deuluol Llandysul

Trosolwg o'r flwyddyn

Blwyddyn brysur arall yn Llandysul - rydym wedi cynyddu ein cyrhaeddiad ac wedi parhau i ddatblygu'r ystod o weithgareddau a gynigir.

Drwy gydol y gwanwyn a'r haf, buom yn canolbwyntio ar weithgareddau awyr agored drwy ein sesiynau "chwarae ac archwilio" yn y parc, ardal Coed Cadw Coed y Foel a'r ardd gymunedol, Yr Ardd, gan adeiladu ar hyder teuluoedd i ddefnyddio'r amgylchedd lleol a datblygu cysylltiad â natur.

Yn yr haf fe wnaethom ddychwelyd i Barc Fferm Ynys Aberteifi, ymweld â diwrnod chwarae Ray Ceredigion a mwynhau mwy o sesiynau gydag Arts4wellbeing diolch i gyllid gan Dechrau'n Deg. Gwnaethom hefyd fynychu digwyddiadau dathlu carnifal a'r coroni yn Llandysul.

Yn yr hydref, dychwelodd y sesiynau Zumbini ac maent bellach yn cael eu cynnal yng nghanolfan hamdden Calon Tysul. Mae hyn wedi gwneud y sesiynau'n fwy hygyrch i ystod ehangach o deuluoedd. Rydym wedi cynnal tri chwrs rhianta - Blynnyddoedd Anhygoel, Cysylltiadau Teulu a Grobrain.

Mae teuluoedd wedi gallu defnyddio'r pas ar gyfer y Gerddi Botaneg Cenedlaethol. Mae hyn wedi bod yn boblogaidd iawn gyda llawer o adborth cadarnhaol.


“

Mae'r holl sesiynau awyr agored wir yn uchafbwyntiau i ni - cwmni gwych, gweithgareddau gwych ac atgofion gwych ar gyfer plentyndod fy merch.

”



Canlyniadau





Canolfan Deuluol Llanybydder

Amgylchedd hamddenol, cyfeillgar sy'n cynnig cymorth i deuluoedd â phlant 0-11 oed yn Llanybydder a'r ardaloedd cyfagos.

Uchafbwyntiau

- Gallu rhoi profiadau newydd i'n teuluoedd a'n plant, drwy sawl taith a diwrnod allan dros y flwyddyn.
- Roedd hi'n llawer o hwyl cyfrannu at y gymuned leol, gan gefnogi gwahanol ddigwyddiadau pentref gyda'n teuluoedd.
- GRhoddwyd agwedd gyfannol i'n teuluoedd at fywyd teuluol drwy weithio gyda llawer o asiantaethau a sefydliadau gwahanol.

Sesiynau a Ddarparwyd

Cylch Ti a Fi ~ Iaith a Chwarae ~ Barod i'r Ysgol ~ Grwpiau Babanod ~ Bwmps a Babis ~ Peter Walker Developmental Baby Massage ~ sesiynau Corfforol/Chwaraeon ~ Crefftau a Chwarae Blêr ~ Aros a Chwarae ~ Coffi, Cacen a Chlonc
Parti Siocled Poeth a Phyjamas ~ Parti Smotiog ~ Dathlu Dydd Miwsig Cymru ac Amser Rhigwm Mawr Cymraeg
Ymddiriedolaeth y Llyfr ~ Cymorth Cyntaf gyda Gwasanaeth Ambiwlans Sant Ioan ~ Sesiynau Cyngor ar Bopeth



“ Mae'r ganolfan deuluol wedi ein helpu i integreiddio ein rhai bach i'r gymuned mewn ffordd fywiog a chyfeillgar. ”

Canolfan Deuluol Llanybydder

Cyfeillgar, croesawgar a chefnogol.
Staff gwych a chyfleusterau gwych
sy'n addas ar gyfer pob plentyn.

Trosolwg o'r flwyddyn

Mae Canolfan Deuluol Llanybydder wedi cael blwyddyn brysur iawn. Tra'n cynnal amserlen lawn o ddigwyddiadau hwyl, rydym hefyd wedi gallu darganfod llawer o'n hardal leol trwy deithiau a diwrnodau allan, sydd wedi bod o gymorth mawr i'n teuluoedd yn ystod y cyfnod ariannol anodd hwn.


Mae'r Ganolfan Deuluol wedi annog teuluoedd i fynychu digwyddiadau lleol, fel Carnifal y Pentref a Pharti Nadolig. Mae teuluoedd wedi gwerthfawrogi bod y Ganolfan yn bresennol yn y digwyddiadau hyn - mae'n golygu nad oes rhaid iddyn nhw fynychu ar eu pennau eu hunain ac y gallant ymgysylltu â bywyd cymunedol heb unrhyw bwysau na phryderon.




Rydym wedi parhau i arsylwi a chynllunio ar gyfer anghenion plant. Mae ein cysylltiadau cryf gyda'r ysgol leol yn golygu ein bod wedi gallu ceisio mynd i'r afael ag unrhyw broblemau y maent wedi'u nodi gyda disgyblion newydd. Rydym hefyd wedi gweithio gydag oedolion y teulu i oresgyn unrhyw anawsterau y gallent fod yn eu hwynebu.

Rydym yn falch o weithio gyda rhieni, a chryfhau eu perthynas â'u plant, gan helpu i wneud sylfeini teuluol yn gadarnach.

Canlyniadau





Canolfan Deuluol Morfa

Mae Canolfan Deuluol Morfa yn cynnig man diogel croesawgar i deuluoedd â phlant 0-11 oed.

Uchafbwyntiau

- Ymweliadau cymunedol lleol. Teithiau i barc sblasio a'r traeth. Adborth cadarnhaol gan deuluoedd. Dod â theuluoedd at ei gilydd fel un gymuned.
- Mae'r Pecynnau Coginio wedi bod yn ychwanegiad gwych i'n hamserlen. Maen nhw'n rhoi hwb i hyder wrth goginio prydau iach ac yn helpu teuluoedd yn yr argyfwng costau byw.
- Gweithio gyda Chlwb Cwtsh i gyflwyno gwersi Cymraeg i deuluoedd i gefnogi menter siaradwyr Cymraeg y Llywodraeth.

Sesiynau a Ddarparwyd

Grŵp Babanod 0-cerdded

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Adrodd Stori, Amser Canu, Chwarae Blêr, Sesiwn Synhwyraidd a chrefftau i'w cadw.

Aros a Chwarae yw ein grŵp mynediad agored chwarae rhydd i fabanod, sy'n cynnwys clwb cinio poblogaidd iawn.

Clwb Cwtsh - Cwrs Cymraeg a gynhelir yn Llyfrgell Llanelli.

Roedd Pecynnau Prydau Morfa yn ychwanegiad newydd i'n hamserlen. Mae hyn wedi bod yn fanteisiol iawn ac mae'n cefnogi teuluoedd drwy'r argyfwng costau byw.



Roedd sesiynau untro eraill yn cynnwys; Parti Disney

Noson Ffilmiau Morfa

Teithiau i'r Parc Sblasio, Traeth Llanelli, Diwrnod Hwyl Maes y Gors, Diwrnod Chwaraeon, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

“Mae'n rheswm i godi a mynd allan!”

Canolfan Deuluol Morfa

“

"Cyn mynd i Ganolfan Morfa, roeddwn i'n teimlo'n unig, yn sownd mewn swigen. Nawr, dwi'n mwynhau bod yn fam ac yn gweld nad oeddwn i ar fy mhen fy hun."

”

Trosolwg o'r flwyddyn


Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar sefydlogrwydd ariannol ein defnyddwyr. Yng Nghanolfan Morfa rydym yn cynnig lle cynnes a chyfforddus i gwrdd â rhieni eraill, ceisio cefnogaeth a chael mynediad at asiantaethau i gael help a chynghor. Mae ein Canolfan yn cynnig mynediad agored ar ddydd Gwener i ddarparu ar gyfer arferion ac anghenion ein teuluoedd.

Rydym wedi cychwyn casgliad pecyn coginio wythnosol sy'n cefnogi teuluoedd ac yn cwrdd ag Erthygl 27 o'r CCUHP sy'n ymwneud â safon byw digonol. Mae'r pecynnau coginio wedi denu teuluoedd newydd i'n canolfan.



Mae teithiau wedi'u trefnu yn ein cymuned leol wedi helpu plant i archwilio, dysgu trwy chwarae a chymdeithasu ag eraill. Mae rhieni wedi adeiladu cyfeillgarwch ac wedi cadw eu costau i lawr. Mae rhai o'n teithiau gwych wedi bod mewn partneriaeth â Chanolfan Deuluol St Paul.

Canlyniadau





Canolfan Deuluol Pencader

Cefnogi teuluoedd o bob oed gyda chymorth, gweithgareddau, lles o fewn cymuned y pentref.

Uchafbwyntiau

- Gweithio gyda sefydliadau allanol er budd pawb yn ein cymuned e.e. Nacro, Arts 4 Wellbeing, Foothold Cymru, Coleg Sir Gâr a llawer mwy.
- Dechreuon ni glwb prynhawn rhwng 3pm a 5pm bob dydd Mercher i blant 7-11 oed ei fynychu ar ôl ysgol. Mae hwn wedi bod yn llwyddiant mawr.
- Rydym ar agor drwy gydol gwyliau'r ysgol ac yn gwneud llawer o weithgareddau, gan gynnwys prif daith yr haf. Eleni aethom i Barc Dinosoriaid Dinbych-y-pysgod.

Sesiynau a Ddarparwyd

Sesiwn galw heibio

Nacro ar drydydd dydd Iau y mis Sesiynau celf a chrefft

Sesiynau crefft i oedolion ar foreau Mercher

Clwb cinio bob dydd Iau

Cwrs cacennau Nadolig dros 4 wythnos

Coginio Foothold Cymru - poptai araf a chrempogau

The Crib bob dydd Mawrth

LAP a chynghor / cefnogaeth magu plant

Sesiynau Aros a Chwarae

Amser bola a chwarae i fabanod nad ydynt yn cerdded eto.



Amser stori gyda Menter, parti Nadolig a chinio Nadolig llawn. Hwyl gwyliau ysgol, celf a chrefft a gemau pêl yn y parc. Helfa wyau Pasg. Taith i'r Parc Dinosoriaid.

“ Fe wnaeth staff y ganolfan deuluol fy helpu i gael hyfforddiant gyda Choleg Sir Gâr i wneud fy NVQ3 CCLD. ”

—”



Canolfan Deuluol RAY Ceredigion

Mae Canolfan Deuluol RAY yn darparu gweithgareddau am ddim i rieni, gofalmwyr a phlant ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher yn ystod y tymor a gwyliau ysgol. Mae gweithgareddau gwyliau ysgol yn croesawu brodyr a chworydd hŷn ynghyd â'r babanod a'r plant cyn-ysgol.

Uchafbwyntiau

- Gwnaeth y rhaglen magu plant Cysylltiadau Teuluol wahaniaeth enfawr i fywydau 6 theulu.
- Dros yr haf aeth fan chwarae Mynediad Agored y Ganolfan Deuluol i 2 gymuned leol. Daeth 72 o deuluoedd ac roedd 56 ohonynt yn deuluoedd newydd, gyda rhai ohonynt bellach yn mynychu sesiynau Canolfan Deuluol RAY yn Aberaeron.
- Gwnaeth Mudiad Meithrin gynig dosbarthiadau Cymraeg (Clwb Cwtsh) i deuluoedd. Darparwyd creche am ddim.

Sesiynau a Ddarparwyd

• Sesiwn galw heibio Aros a Chwarae RAY • Sesiwn synhwyraidd i fabanod • Massage Babanod • Babbling Babies gyda'r tîm SAL • Grŵp Bwydo ar y Fron Nyth y Fron • Rhaglen magu plant 10-wythnos Cysylltiadau Teuluol • Merry Maker • Zumbini gyda Sam • Mas Tu Fas • Cymraeg i Blant - Mudiad Meithrin • Mini Movers • 'Clwb Cwtsh' Mudiad Meithrin - dosbarthiadau Cymraeg i rieni a gofalmwyr • Fan chwarae mynediad agored y Ganolfan Deuluol yn ymweld â'r gymuned - Llanrhystud a Llanon • Chwarae Blêr • Amser Stori • Clwb Babanod



"Mae pawb wedi bod yn wych, ry'n ni mor lwcus i gael RAY yn ein bywydau."

Canolfan Deuluol RAY Ceredigion

Trosolwg o'r flwyddyn

Mae blwyddyn arall wedi pasio, ac am flwyddyn brysur. Ar ddechrau'r flwyddyn, fe lwyddon ni i gynnig Zumbini i'n teuluoedd. Roedd yn gymaint o lwyddiant, gyda llawer o bobl yn mynychu a digon o dadau yn bresennol gyda'u rhai bach.

Dros wyliau'r Pasg fe wnaethon ni gynnal parti Pasg, gan gynnig llawer o gelf a chrefft, bwyd parti a helpa wyau Pasg. Cawsom hyd yn oed ymweliad gan y Gwningen Pasg.

Ar ôl hynny fe wnaethon ni gyflwyno ein sesiynau Amser Stori. Fe wnaethon ni fwynhau darllen llyfrau amrywiol,

defnyddio pypedau a hyd yn oed wneud ein propiau ein hunain. Roedd y Gryffalo yn llwyddiant mawr. Fe wnaethon ni gyflwyno sesiwn ar gyfer chwarae blêr yn unig. Cafwyd llawer o hwyl, digon o archwilio gweadau gwahanol gyda bwyd a thecstilau. Mae grŵp Cymorth Bwydo ar y Fron Nyth y Fron yn dal i fynd yn gryf gyda'n niferoedd yn cynyddu bob wythnos.

Mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin, gwnaethom redeg Cymraeg i Blant a 'Chlwb Cwtsh'. Daeth llawer o bobl i'r sesiynau 'Clwb Cwtsh' gyda digon o rieni eisiau dysgu Cymraeg sylfaenol. Roedd y creche am ddim yn help mawr.


“

"Fel mam-gu dwi wrth fy modd yn dod â G. Mae'r ddau ohonon ni'n mwynhau, rydyn ni'n cael ein trochi yn yr iaith Gymraeg, gan gwrdd â ffrindiau newydd mewn amgylchedd cefnogol, cadarnhaol, hapus i'r ddau ohonom!"

”



Canlyniadau





Canolfan Deuluol St Paul

Rydym yn darparu amgylchedd cynnes a chroesawgar i deuluoedd a phlant hyd at 11 oed.

Uchafbwyntiau

- Cawsom ein dewis gan Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin fel un o dair elusen y flwyddyn i elwa o godi arian a rhoddion.
- Gwella ein hystafell chwarae trwy ddefnyddio lliwiau niwtral ac ychwanegu mwy o ddodrefn pren ac adnoddau. Rhoi amgylchedd tawel i blant a theuluoedd chwarae a dysgu.
- Gwnaeth plant a theuluoedd fwynhau triapiau a sesiynau mewn mannau gwyrdd lleol, ac fe wnaethom hefyd ymweld ag Ynys y Barri, Dinbych-y-pysgod, Sain Ffagan, Porthcawl a'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol.

Sesiynau a Ddarparwyd

Coginio Gyda'n Gilydd ar gyfer plant a theuluoedd gyda'r Ymarferydd Cyn-Ysgol Iach a Hywel Dda.

Sesiynau Lluosi gyda Choleg Sir Gâr - gwnaeth rhieni wella eu sgiliau mathemateg drwy weithgareddau celf a chrefft.

Cynhelir sesiynau Cymraeg gan Clwb Cwtsh. Sesiynau ymgysylltu gyda Cymunedau am Waith+ lle cymerodd rhieni ran mewn gweithdai crefft a chyllidebu.

Grwpiau babanod a phlant bach. Aros a Chwarae, Massage Babanod, Iaith a



Chwarae. Storiâu gweithredol a chwarae yn yr awyr agored. Chwarae synhwyrdd/blêr/celf a chrefft. Teithiau a gwibdeithiau.

Chwarae a Dysgu, Rhaglenni Magu Plant a chyfleusterau crèche.

"Gwnaeth St Paul ganiatáu i mi gysylltu â rhieni eraill mewn sefyllfaoedd tebyg. Mae'n lle diogel i ni"

Canolfan Deuluol St Paul

Trosolwg o'r flwyddyn

Rydyn ni wedi cael blwyddyn brysur arall yn y Ganolfan Deuluol. Rydym wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y bobl sy'n mynychu ein Grŵp Babanod ac mae staff wedi croesawu cyfanswm o 107 o deuluoedd newydd dros y 12 mis diwethaf. Mae gweithgareddau yn y grwpiau Babanod a Phlant Bach wedi rhoi cyfleoedd newydd i deuluoedd brofi chwarae synhwyrdd a blêr ac amser cân a stori wrth wneud ffrindiau newydd.

Rydym wedi addasu ein hardal awyr agored gan alluogi teuluoedd i gael mynediad i fannau awyr agored cysgodol, hyd yn oed mewn tywydd gwlyb ac oer. Mae hwn wedi bod yn ychwanegiad gwych.


Rydym wedi cydweithio â sefydliadau a mynychu Pride Llanelli, Dathliadau'r Diwrnod Chwarae Cenedlaethol a esiynau Cymunedol yn Goods Shed Llanelli. Rydym wedi cyflwyno gweithgareddau ar y cyd gyda Dechrau'n Deg, Foothold, tîm Transforming Tyisha, Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli, Cymunedau am Waith +, Coleg Sir Gâr, Y Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae, a Hywel Dda.

Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Chanolfannau Teuluol Felin-foel a Morfa ac wedi cynnal Parti Nadolig llwyddiannus iawn. Rydym yn edrych 'mlaen at fwy o ddigwyddiadau ar y cyd.

“Mae St Paul yn ganolfan deuluol ddiogel, gartrefol a chroesawgar sy'n caniatáu i'm babi ffynnu gyda'i ffrindiau.”



Canlyniadau





Meithrinfa St Paul

Mae Meithrinfa St Paul yn rhaglen 'Dechrau'n Deg' sy'n darparu gofal i blant lleol rhwng 2 a 3 oed.

Uchafbwyntiau

- Gwnaethom sicrhau cyllid i adnewyddu ardal yr ardd, ac erbyn hyn mae gennym ddwy ystafell ddosbarth awyr agored a decin newydd.
- Sicrhawyd cyllid i weddnewid yr ystafell chwarae a'r adnoddau, sydd bellach ar thema natur fel yr argymhellir yng nghwricwlwm blynyddoedd cynnar Cymru.
- Adborth ardderchog gan rieni yn dangos eu gwerthfawrogiad a'u cefnogaeth i'r Feithrinfa ac yn tynnu sylw at faint mae eu plentyn/plant yn caru'r staff.

Sesiynau a Ddarparwyd

Rydym wedi dilyn canllawiau'r 'Cwricwlwm Newydd i Gymru ar gyfer Meithrinfeydd'. Helpodd hyn i sicrhau ein bod yn cynnig y ddarpariaeth orau posibl ar gyfer datblygiad plant o ran sgiliau allweddol, iechyd emosiynol, annibyniaeth a hunanhyder. Darparwyd gweithgareddau dan do ac awyr agored yn ddyddiol beth bynnag fo'r tywydd. Ymwelodd y plant â'r ysgol leol am bicnic. Gwnaeth hyn eu galluogi i bontio'n well i'r ysgol a'u helpu i gael profiadau cadarnhaol o'u hamgylchedd newydd. Roedd yr ymweliadau rheolaidd â'r maes chwarae yn boblogaidd, yn ogystal â



wasanaeth Cristingl y Ganolfan Deuluol. Gwnaeth teuluoedd hefyd fwynhau bod yn rhan o ddigwyddiadau haf y Ganolfan Deuluol.

“Rydw i wrth fy modd â'r amgylchedd grŵp bach' lle mae modd gofalu am fy merch yn iawn”

Meithrinfa St Paul

“

Mae'r staff yn rhoi croeso cynnes i ni gyd ac yn gofalu am fy mhlentyn fel pe bai'n un o'u plant nhw eu hunain.

”

Trosolwg o'r flwyddyn

Mae pob plentyn wedi defnyddio'r Rhaglen Geirfa Graidd ar argymhelliad Dechrau'n Deg. Caiff ei haddysgu gyda grwpiau bach o blant er mwyn datblygu sgiliau iaith - mae'n gweithio'n dda i annog lleferydd ac iaith y plant mewn amgylchedd hwyl, cymdeithasol. Roedd lleferydd pob plentyn wedi gwella erbyn iddyn nhw symud i'r ysgol.


Mae staff wedi arsylwi ar blant, mae gan bob plentyn ei draciwr ei hun ac mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi i helpu i sicrhau y gallwn gyflawni'r 'camau nesaf' yn eu datblygiad. Mae 90% o blant fel arfer yn cyrraedd eu canlyniadau disgwyledig - rydym wedi gweld mai'r plant sy'n dangos oedi wrth siarad a chyfathrebu yw'r rhai â phresenoldeb isel. Dros y flwyddyn



ddiwethaf roedd 10% yn is na'r canlyniadau disgwyledig. Anogwyd teuluoedd i gymryd rhan yng 'Ngrŵp Babanod' y Ganolfan Deuluol, a helpodd hyn y plant i ennill mwy o sgiliau cyfathrebu ac ymglyfarwyddo â'r lleoliad.

Mae'r staff wedi darparu amgylchedd gofalgarg, ysgogol a chyfeillgar ac wedi gweithio ochr yn ochr â phlant i gefnogi chwarae, dysgu a datblygu ar eu cyflymder eu hunain.

Canlyniadau





Canolfan Deuluol Tregaron

Mae Canolfan Deuluol Tregaron yn cynnig gwasanaeth mynediad agored anfeirniadol o ansawdd i ddatblygu sgiliau a meithrin gallu teuluoedd

Uchafbwyntiau

- Sicrhawyd 7 grant gyda Chronfa Gymunedol Ceredigion, Garfield Weston, y Grid Cenedlaethol, CAVO, Y Loteri Genedlaethol a Sefydliad Foyle.
- Gwelsom gynnydd yn nifer y bobl, gyda 21 o dadau/teidiau yn mynychu ein sesiynau eleni, sy'n wych.
- Cynhaliwyd gweithdai uwchsgilio i ddod â'r gymuned ynghyd a rhannu sgiliau a gwybodaeth gan roi'r cyfle i ni ddatblygu ac ehangu perthnasoedd cymunedol.

Sesiynau a Ddarparwyd

Cynhaliwyd cyfanswm o 162 sesiwn gan gefnogi 122 o deuluoedd. Sesiynau fel - laith a Chwarae, manau cynnes, gweithdai uwchsgilio, Plant Egniol, Zumbini/Zumba i blant, cwrs Cysylltiadau Teuluol, Little Stars, Aros a Chwarae, Stori a Rhigwm, Massage Babanod, Sesiynau Synhwyrdd i Fabanod, sesiynau celf a chrefft, chwarae yn y parc, teithiau picnic, teithiau fferm, Ysgol Goedwig, Chwarae Blêr, codi arian, partïon Nadolig a haf a diwrnodau chwarae. Bu'r holl sesiynau'n llwyddiannus iawn gyda llawer o deuluoedd yn eu mynychu i gyd.



"Achubiaeth i ni - yn mynd yr ail filltir i helpu, gan helpu fy iechyd meddwl a helpu'n ariannol drwy ddarparu gwasanaethau am ddim."

Canolfan Deuluol Tregaron

“

"Gwych! Fel rhywun sydd ddim yn wreiddiol o'r ardal mae wedi fy helpu i ddod i nabod mamau eraill a theimlo fy mod i'n cael fy nghefnogi."

”

Trosolwg o'r flwyddyn

Rydym wedi croesawu gwirfoddolwr newydd, sydd wedi bod yn gaffaeliad i'r tim.

Buom yn gweithio'n agos gyda Pathfinder gan ddarparu ystod o gyrsiau, fel Cysylltiadau Teuluol, Iaith a Chwarae, Little Stars, a Massage Babanod.


Cynhaliwyd sesiynau awyr agored i ddarparu profiadau gwahanol i'r teuluoedd a fynychodd, e.e. sesiynau Ysgol Goedwig, chwarae yn y parc, teithiau awyr agored.

Darparwyd cludiant ar gyfer teithiau oddi ar y safle i helpu teuluoedd nad oes ganddynt fynediad at drafnidiaeth.

Oherwydd y cyllid a sicrhawyd, bu'n bosibl i'n sesiynau Mannau Cynnes gario 'mlaen i'r teuluoedd a'r gymuned i helpu yn ystod yr argyfwng costau byw. Mae llawer o bobl wedi mynychu ers i ni ddechrau ym mis Tachwedd 2022. Dosbarthwyd bagiau llyfrau a pheccynnau chwaraeon. Cynhaliwyd gweithdai uwchsgilio gan ddod â'r gymuned at ei gilydd ac mae wedi rhoi cyfle i ni weithio gyda llawer o sefydliadau, busnesau a grwpiau lleol newydd.



Canlyniadau





Canolfan Deuluol y Tymbl

Darparu cymorth, cyfeillgarwch a gweithgareddau i deuluoedd â phlant 0-16 oed ledled Cwm Gwendraeth

Uchafbwyntiau

- Ehangu ein gwasanaethau i gynnwys clwb iau wythnosol i blant 9-11 oed.
- Cafodd teuluoedd drip haf gwych i Ynys y Barri - roedd yr haul yn tywynnu trwy'r dydd a chafodd pawb lawer o hwyl.
- Roedd ein diwrnod hwyl i'r teulu yn llwyddiant ysgubol, gan groesawu teuluoedd hen a newydd i'r ganolfan deuluol

Sesiynau a Ddarparwyd

Mae Canolfan Deuluol y Tymbl wedi cyflwyno sesiynau Bwmps a Babis, Aros a Chwarae, a Chwarae Synhwyrdd wythnosol. Darparwyd cefnogaeth a hwyluswyd ystod o weithgareddau chwarae i deuluoedd a'u plant cyn-ysgol yn rheolaidd. Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom hefyd ddechrau clwb iau ar ôl ysgol bob prynhawn dydd Mawrth yn ystod y tymor i blant 9-11 oed. Mae staff y ganolfan yn trefnu gemau, gweithgareddau chwarae, gwibdeithiau a sesiynau sgiliau i'r plant gymryd rhan ynddynt. Gwnaeth y plant fwynhau dysgu



CPR a chymorth cyntaf sylfaenol yn enwedig.

Eleni, trefnon ni deithiau i'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol, Ynys y Barri a Llyn Llech Owain gyda'r teuluoedd i gyd yn cael amser gwych.

“Mae'r ganolfan mor gyfeillgar, fe wnes i drio grwpiau eraill, ond roeddwn i'n teimlo allan o le. Rydyn ni wrth ein bodd yn dod yma, fel ail gartref.”

”

Canolfan Deuluol y Tymbl

Trosolwg o'r flwyddyn

Mae'r flwyddyn ddiwethaf yma yng Nghanolfan Deuluol y Tymbl wedi bod yn un o hwyl, cyfeillgarwch a thwrf.

Gan weithio mewn partneriaeth â'r gymuned leol a sefydliadau rydym wedi datblygu grwpiau newydd, trefnu diwrnodau hwyl cymunedol a dechrau clwb ieuenctid iau newydd.

Mae'r ganolfan deuluol wedi setlo yn ei chartref newydd yng nghanol y gymuned ac yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r cyngor cymuned i gynnig lle cynnes a diogel i deuluoedd lleol chwarae, dysgu a chael cymorth.

Mae ein teuluoedd wedi mwynhau sesiynau rheolaidd fel grwpiau chwarae plant bach, grwpiau babanod a chwarae synhwyrdd. Ochr yn ochr â'r rhain, rydym wedi cynnig gwibdeithiau, tripiâu a diwrnodau chwarae yn ystod gwyliau ysgol.

Mae ein darpariaeth ieuenctid newydd wedi bod yn boblogaidd iawn, ac rydym yn gyffrous i allu ehangu ein gwasanaeth i gynnig lle diogel i bobl ifanc leol wneud ffrindiau newydd, dysgu sgiliau newydd a datblygu eu hannibyniaeth.

Hoffem ddiolch i'n teuluoedd, gwirfoddolwyr a'r gymuned leol am eu cefnogaeth barhaus ac edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf!


“

"Rydyn ni wedi cael cymaint o help, mae fy rhieni wedi marw, does neb arall. Dwi'n gwybod y galla i alw mewn neu anfon neges ac mae'r staff yno i mi."

”



Canlyniadau





Canolfan Deuluol Tŷ Hapus

Darparu cyfleoedd a phrofiadau gwerthfawr sy'n grymuso unigolion i wella eu bywydau a bywydau eu teuluoedd a'u cymuned.

Uchafbwyntiau

- Gwelwyd y Ganolfan Deuluol yn ffynnu gyda theuluoedd hen a newydd, a llawer o ffrindiau a rhwydweithiau cymorth cryf yn cael eu creu.
- Mae rhieni a phlant wedi ennill llawer o sgiliau, gwybodaeth a chefnogaeth o'r ystod o gyrsiau a gweithdai a gynigir trwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
- Creu amgylchedd meithringar sy'n meithrin hapusrwydd a thwf i blant a theuluoedd, gan eu galluogi i ffynnu yn y gweithgareddau a'r cyfleoedd a gynigiwn.

Sesiynau a Ddarparwyd

Trwy gydol y flwyddyn gwnaethom gynnig sesiynau rheolaidd fel grwpiau iaith a Chwarae i fabanod a phlant bach, chwarae awyr agored a theithiau cerdded, Aros a Chwarae, massage babanod ac ymweliadau bob pythefnos â chartref gofal lleol. Yn ogystal, rydym yn cynnig nifer o deithiau a diwrnodau hwyl gan gynnwys taith fws i Barc Gwledig Pen-bre, diwrnodau dathlu a phartïon a diwrnodau gweithgareddau yn y gymuned.

Fe wnaethom hefyd gysylltu ag asiantaethau eraill fel Dechrau'n Deg, Plant Dewi, Dysgu fel Teulu Sir



Gaerfyrddin, Cymunedau am Waith, Clwb Cwtsh, New2U, Cyngor Sir Caerfyrddin, Sero, Prosiect Lluosi, a Foothold Cymru i ddarparu amrywiaeth o sesiynau cefnogol, addysgol a hwyl i deuluoedd.

“Maen nhw'n cynnig cymaint o gyfleoedd hwyl ac addysgol i deuluoedd. Mynd i'r ganolfan yw uchafbwynt fy wythnos.”

Canolfan Deuluol Tŷ Hapus

Trosolwg o'r flwyddyn

Darparwyd ein grwpiau wythnosol i fabanod a phlant bach a sesiynau Aros a Chwarae dan do ac yn yr awyr agored ac roeddent yn cynnwys gweithgareddau addysgiadol hwyl a oedd yn cefnogi datblygiad cyffredinol, gwytnwch a sgiliau cymdeithasol plant, gan hefyd leihau unigedd a phryderon teuluoedd.

Dangosodd sylwadau ac adborth fod y plant wrth eu bodd â'r straeon a'r caneuon, a'r chwarae blêr a synhwyraidd, a bod teuluoedd yn gwerthfawrogi'r rhwydwaith cymdeithasol a grëwyd gan y ganolfan deuluol.

Fe wnaeth ymgynghoriadau â theuluoedd ein helpu i gydnabod bod llawer o deuluoedd yn dioddef mwy o orbryder oherwydd yr argyfwng

costau byw. Bu'n bosibl i ni eu cefnogi drwy drefnu cyrsiau a gweithdai amrywiol, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Roedd hyn yn cynnwys; cwrs cyllidebu, gweithdai maeth a phrydau iach ar gyllideb, a sesiynau cymorth cyflogaeth. Fe wnaethon ni hefyd gynnig teithiau a diwrnodau hwyl am ddim, a chynnig rhoddion o ddillad, llyfrau, teganau, cewynnau a chynhyrchion mislif.

Gwnaethom dderbyn cyllid gan Plant Mewn Angen, Postcode Community Trust, Garfield Weston, TK Maxx a Homesense Foundation, Persimmon Homes, Tesco/Groundwork UK, Teuluoedd yn Gyntaf/Dechrau'n Deg a Ras y Maer.


“

Roeddwn i'n teimlo'n unig ac yn bryderus, yn cael trafferth gydag iselder ôl-enedigol. Daeth y ganolfan deuluol yn achubiaeth i mi a fy mhlant.”

”



Canlyniadau



DIOLCH YN FAWR

Diolch yn fawr iawn i'r holl gyllidwyr sydd wedi cefnogi Plant Dewi a'r canolfannau teuluol yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd yn diolch i'n hymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr, sefydliadau partner a chefnogwyr ymroddedig sy'n ei gwneud hi'n bosibl estyn allan at gynifer o deuluoedd ledled Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



2024-25

EDRYCH YMLAEN

Yn dilyn blwyddyn brysur arall o weithio yn y cymunedau sydd ein hangen fwyaf, edrychwn ymlaen at barhau â'n gwasanaethau hanfodol sy'n dod â theuluoedd ynghyd a datblygu'r rhain i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion lleol. Rydym yn wynebu adeg o newid gyda mwy o alw ar wasanaethau a mwy o heriau wrth ddenu grantiau, fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda'n comisiynwyr a'n cyrff cyllido gwerthfawr i adeiladu ar ein cynnig i deuluoedd ledled yr esgobaeth.

I ddysgu mwy ewch i'n gwefan.....

www.plantdewi.org.uk



www.plantdewi.org.uk/our-work/dads-project/



www.plantdewi.org.uk/our-work/young-parents-project/



www.plantdewi.org.uk/our-work/families-together-groups/



www.plantdewi.org.uk/our-work/baby-bundle-bank/



www.plantdewi.org.uk/our-work/family-centres/





PLANT DEWI

Lle Mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

Plant Dewi, 21 Stryd y Brenin, Caerfyrddin SA31 1BH.

Ffôn : 01267 221 551

Plant Dewi, 21 King Street, Carmarthen SA31 1BH.

Tel: 01267 2221551